## Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Mawrth 2006 |
| **Amser:** | 9.00am – 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000–2006: Adroddiad Chwarterol |

**CRYNODEB**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad ar sefyllfa ddiweddaraf Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae'r ffigurau yn dangos y sefyllfa fel ag yr oedd ddiwedd mis Chwefror 2006, oni nodir yn wahanol. Mae'r holl ffigurau a nodwyd yn seiliedig ar y gyfradd gyfnewid bresennol ar gyfer cynllunio, sef £1: €1.46.

2. Dyma amserlen cyfarfodydd Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni ers yr Adroddiad Chwarterol diwethaf:
   - Cyfarfu Amcan 1 ar 5 Rhagfyr 2005 ac 20 Mawrth 2006.
   - Cafodd cyfarfod Amcan 2 ar 16 Ionawr 2006 ei ohirio ac nid oes dyddiad newydd wedi ei gadarnhau ar gyfer y cyfarfod nesaf.
   - Cyfarfu Amcan 3 ar 1 Rhagfyr 2005 a bydd yn cyfarfod eto ar 6 Ebrill 2006.
   - Cyfarfu INTERREG IIIA ar 28 Tachwedd 2005 a bydd yn cyfarfod nesaf yn ystod Mehefin 2006.
   - Cyfarfu LEADER+ ar 10 Tachwedd 2005 a bydd yn cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin 2006.
   - Cyfarfu URBAN II ar 26 Ionawr 2006 a bydd yn cyfarfod eto ar 30 Mawrth 2006.
   - Cyfarfu Pwyllgor Rheoli Cymru EQUAL ar 13 Chwefror 2006 a bydd yn cyfarfod eto ar 17 Gorffennaf 2006.

3. Ceir adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Monitro’r Rhaglenni yn **Atodiad 1**.

4. Erbyn diwedd Chwefror 2006, roedd Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru wedi ymrwymo £1.48 biliwn i 2,694 o brosiectau cymeradwy gwerth tua £3.56 biliwn. Mae prosiectau sy'n cael arian cyfatebol o gronfeydd strwythurol wedi helpu i greu a diogelu mwy na 134,000 o swyddi. Mae Amcan 1 ar ei ben ei hun wedi ymrwymo £1.26 biliwn, ac wedi helpu i greu a diogelu dros 119,000 o swyddi. Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol mai prosiectau unigol sy’n cyflwyno’r data am yr allbynnau ac felly bod angen trin y data yn ofalus, gan y gallai’r ffigurau gynnwys elfen o gyfrif dwbl.

5. Mae cyfanswm gwerth y prosiectau yn dangos gallu Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn glir. Mae

arian cyfatebol yn rhan hanfodol o gyllid ar gyfer prosiectau o'r fath a bydd yn parhau felly. Gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio defnyddio arian cyfatebol sy'n dod o ffynonellau lleol ar gyfer y prosiectau hyn, mae pobl Cymru wedi elwa'n fawr.

## ARGYMHELLIAD

6. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn nodi'r Adroddiad ar hynt y Rhaglenni prif ffrwd a'r Mentrau Cymunedol.

## AMCAN 1

### Hynt Rhaglen Amcan 1

7. Erbyn 28 Chwefror 2006, roedd Rhaglen Amcan 1 wedi ymrwymo gwerth £1.26 biliwn o grantiau i 1,643 o brosiectau, gyda chyfanswm o dros £3 biliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau. Felly, mae tua 96% o werth gwreiddiol y Rhaglen bellach wedi'i ymrwymo. Hyd yn hyn, mae prosiectau sy'n cael arian cyfatebol gan gronfa Amcan 1 wedi helpu i greu tua 53,000 o swyddi newydd ac wedi diogelu 66,600 o swyddi (gweler y nodyn yn para. 4 ynghylch cyfrif dwbl). Ceir gwybodaeth am y symiau a ymrwymwyd a'r gwariant gwirioneddol, fesul Blaenoriaeth, yn Atodiad 2A.  Ceir manylion pellach ar gynnydd y Rhaglen, yn cynnwys dadansoddiad o allbynnau pob Blaenoriaeth, yn Adroddiad Monitro y Pwyllgorau sy'n Monitro'r Rhaglenni Amcan 1 (Atodiad 3).

**28 Chwefror 2006**

| Cronfa | Nifer y Prosiectau | Cyfanswm Gwerth y Grant a Ymrwymwyd (£m) | Grant a gymeradwywyd fel % o gyllid gwreiddiol y Rhaglen | Gwariant Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|---|
| ERDF | 880 | 752.5 | 95.2 | 428.4 |
| ESF | 612 | 412.1 | 99 | 260.8 |
| EAGGF | 121 | 87.1 | 95.8 | 51.9 |
| FIFG | 30 | 12.6 | 81.3 | 7.2 |
| **Cyfanswm** | **1,643** | **1,264.3** | **96.28** | **748.3** |

Nodyn ar FIFG: Yn wreiddiol roedd £9.383 miliwn ar gael; cafodd y gronfa hon ddyraniad sylweddol o'r Gronfa Wrth Gefn - Perfformiad. Mae rownd ceisiadau wedi cau yn ddiweddar ac mae'r prosiectau wedi'u dewis i ddefnyddio gweddill arian Mesur 9, Blaenoriaeth 5.

## RHAGLEN AMCAN 2 A'R RHAGLEN DROSIANNOL

### Hynt Rhaglen Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol

8. Ar 28 Chwefror 2006, roedd 278 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, grantiau gwerth £74.2 miliwn wedi'u hymrwymo a chyfanswm o £243 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau. Felly, mae tua 85% o gyllid gwreiddiol y Rhaglen bellach wedi'i ymrwymo. Ceir gwybodaeth am y symiau a ymrwymwyd a'r gwariant gwirioneddol, fesul Blaenoriaeth, yn Atodiad 2B.

## AMCAN 3

### Hynt Rhaglen Amcan 3

9. Ar 28 Chwefror 2006, roedd 538 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, £93 miliwn o grant ESF wedi'i ddyrannu a chyfanswm o £219 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau. Mae dros 99% o gyllid gwreiddiol y Rhaglen bellach wedi'i ymrwymo. Ceir gwybodaeth am y symiau a ymrwymwyd a'r gwariant gwirioneddol, fesul Blaenoriaeth, yn Atodiad 2C.

## RHAGLENNI MENTER GYMUNEDOL

10. Mae'r Rhaglenni Menter Gymunedol yn parhau i wneud cynnydd da, fel y dengys adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni yn **Atodiadau 1D i 1G**.

## TARGEDAU GWARIO N+2

11. Erbyn 31 Rhagfyr, roedd WEFO wedi cyflwyno nifer digonol o hawliau i’r Comisiwn Ewropeaidd (CE) i fodloni targedau pwysig a heriol N+2 ar gyfer pob un o raglenni’r Cronfeydd Strwythurol. Hyd yn hyn mae WEFO wedi derbyn tâl oddi wrth y CE ar gyfer pob cronfa heblaw am yr ESF.

## Y DIWEDDARAF AM YMCHWIL A GWERTHUSO

<u>Rhag-werthusiad</u>

12. Mae'n ofyniad gan y CE bod WEFO yn cynnal rhag-werthusiad ar gyfer Rhaglenni Cydgyfeirio, Cystadleuaeth ac Adnoddau Dynol ar gyfer 2007-2013. Bydd y gwerthusiadau hyn yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau er mwyn gwneud y mwyaf o ansawdd cynlluniau ar gyfer gweithredu rhaglenni.

    Bydd ymchwilydd allanol ar gontract yn cynnal Rhag-werthusiadau o’r tair Rhaglen. Mae’r broses gaffael ar waith ar hyn o bryd, a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu cyn hir. Bydd adroddiadau terfynol ar gyfer pob un o’r tri Rhag-werthusiad yn cael eu llunio a’u cyflwyno i’r Comisiwn yn ystod hydref 2006.

Diweddariad o'r Gwerthusiad Canol Tymor

13. Cyflwynwyd Adroddiadau Terfynol yn nodi'r Diweddaraf am y Gwerthusiad Canol Tymor, (un ar gyfer pob un o Raglenni Amcan 1, 2/T, 3, INTERREG IIIA ac URBAN II), i'r Comisiwn ddiwedd Rhagfyr 2005. Mae'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi ac ar gael ar wefan WEFO.

Arolwg o Farn Cwsmeriaid 2005

14. Nod yr Arolwg o Farn Cwsmeriaid 2005 yw archwilio i farn ymgeiswyr y Cronfeydd Strwythurol am y gwasanaeth a ddarperir iddynt gan WEFO. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2006 a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan WEFO.

**CYNLLUNIAU BUSNES MONITRO BLYNYDDOL**

15. Mae'r Cynlluniau Busnes Monitro Blynyddol (AMBPs) yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd ariannol Rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 o ddechrau'r Rhaglenni hyd at 31 Rhagfyr 2005, a Rhagolygon ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Rhagfyr 2006. Roedd Pwyllgorau Monitro Rhaglenni Amcan 1 wedi trafod yr AMBP yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth. Bydd yr AMBPs yn cael eu cyhoeddi ar wefan WEFO yn: http://www.wefo.wales.gov.uk/.

**Y CRONFEYDD STRWYTHUROL AR ÔL 2006**

16. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd am y rhaglenni newydd, gyda thrafodaethau'n cael eu trefnu ar wahân ar y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol a'r Rhaglenni Gweithredol drafft. Mae'r Fframwaith yn rhan o gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Dyma gyfeiriad y wefan: http://www.dti.gov.uk/europe/nsrf.html

**WEFO** **Mawrth 2006**